# Gweithdrefnau Gêm Mega Cashword Pink




## Cyflwyniad

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer MEGA CASHWORD PINK (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn gymwys. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

## Manylion y gêm

Enw'r Gêm: **"MEGA CASHWORD PINK"**
Rhif y Gêm: **"Gêm 1202"**
Pris Manwerthu: **£5 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.70 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 6,985,020 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn .

## Sut i chwarae ac ennill

Mae pedair ardal ar y Cerdyn Crafu wedi'u labelu fel 'YOUR LETTERS' ("Adran Eich Llythrennau"), 'GRID 1', 'GRID 2' (y "Gridiau Geiriau", "Grid Geiriau" yn unigol) a 'PRIZE TABLE' (y "Tabl Gwobrau").

I chwarae'r Gêm, rhaid i Chi grafu'r haen gyfan oddi ar Adran Eich Llythrennau i ddatgelu 18 o Symbolau Chwarae yn gyntaf. Yna, rhaid i chi grafu'r haen oddi ar y Symbolau Chwarae yn y Gridiau Geiriau sy'n cyfateb i'r Symbolau Chwarae rydych wedi'u datgelu o dan yr haen yn Adran Eich Llythrennau.

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu tri neu fwy o eiriau cyflawn o dan haen Grid Geiriau (y "Geiriau Buddugol"), drwy grafu'r haen oddi ar y Symbolau Chwarae yn y Gridiau Geiriau sy'n cyfateb i'r Symbolau Chwarae a ddatgelir o dan yr haen yn Adran Eich Llythrennau.

**Noder:** Diffinnir ennill drwy baru 3 neu fwy o eiriau cyflawn ar un Grid Geiriau. Ni chaiff geiriau o fewn geiriau (er enghraifft TO, TON, ONE yn y gair STONE) eu hystyried yn eiriau 'cyflawn'.

Y Wobr fydd y Wobr a ddangosir yn y Tabl Gwobrau ar gyfer y nifer cyfatebol o Eiriau Buddugol a ddatgelir o dan haen pob Grid Geiriau.

Gall chwaraewyr ennill hyd at ddwywaith ar Gerdyn Crafu.

## Symbolau Chwarae

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | A | B | C | D | E | F |
| Symbolau Chwarae | G | H | I | J | K | L |
| Symbolau Chwarae | M | N | O | P | Q | R |
| Symbolau Chwarae | S | T | U | V | W | X |
| Symbolau Chwarae | Y | Z | | | | |

Dim ond y Symbolau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm.

Rhaid i Symbolau Chwarae sydd wedi'u cyfuno i ffurfio Gair Buddugol ymddangos mewn cyfres lorweddol (o'r chwith i'r dde) ddi-dor neu gyfres fertigol (o'r top i'r gwaelod) ddi-dor o lythrennau o fewn Grid Geiriau.

16+

**GP GM1202**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY
YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN

Ceir enghreifftiau o Eiriau Buddugol derbyniol isod:

| ENGHREIFFTIAU | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | L |
| S | T | O | N | E |
| P | | | | T |
| Y | | | | |

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o docynnau eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| £5 | GRID 1 3 GAIR | 372,428 | 19 | +/- 5.00% |
| £5 | GRID 2 3 GAIR | 372,549 | 19 | +/- 5.00% |
| £10 | GRID 1 4 GAIR | 186,280 | 38 | +/- 5.00% |
| £10 | GRID 2 4 GAIR | 186,111 | 38 | +/- 5.00% |
| £10 | GRID 1 3 GAIR + GRID 2 3 GAIR | 349,361 | 20 | +/- 5.00% |
| £15 | GRID 1 5 GAIR | 69,770 | 101 | +/- 5.00% |
| £15 | GRID 2 5 GAIR | 69,869 | 100 | +/- 5.00% |
| £15 | GRID 1 3 GAIR + GRID 2 4 GAIR | 69,852 | 100 | +/- 5.00% |
| £15 | GRID 1 4 GAIR + GRID 2 3 GAIR | 69,897 | 100 | +/- 5.00% |
| £20 | GRID 1 6 GAIR | 23,298 | 300 | +/- 5.00% |
| £20 | GRID 2 6 GAIR | 23,250 | 301 | +/- 5.00% |
| £20 | GRID 1 5 GAIR + GRID 2 3 GAIR | 23,315 | 300 | +/- 5.00% |
| £20 | GRID 1 3 GAIR + GRID 2 5 GAIR | 23,332 | 300 | +/- 5.00% |
| £50 | GRID 1 7 GAIR | 14,915 | 469 | +/- 5.00% |
| £50 | GRID 2 7 GAIR | 15,150 | 462 | +/- 5.00% |
| £100 | GRID 1 8 GAIR | 3,464 | 2,017 | +/- 5.00% |
| £100 | GRID 2 8 GAIR | 3,487 | 2,004 | +/- 5.00% |
| £100 | GRID 1 7 GAIR + GRID 2 7 GAIR | 4,100 | 1,704 | +/- 5.00% |
| £200 | GRID 1 9 GAIR | 1,471 | 4,749 | +/- 5.00% |
| £200 | GRID 2 9 GAIR | 1,451 | 4,814 | +/- 5.00% |
| £200 | GRID 1 8 GAIR + GRID 2 8 GAIR | 2,012 | 3,472 | +/- 5.00% |
| £1,000 | GRID 1 10 GAIR | 178 | 39,242 | +/- 7.13% |
| £1,000 | GRID 2 10 GAIR | 226 | 30,908 | +/- 6.12% |
| £50,000 | GRID 1 11 GAIR | 2 | 3,492,510 | +/- 36.55% |
| £50,000 | GRID 2 11 GAIR | 2 | 3,492,510 | +/- 36.55% |
| £1,000,000 | GRID 1 12 GAIR | 2 | 3,492,510 | +/- 36.55% |
| £1,000,000 | GRID 2 12 GAIR | 2 | 3,492,510 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

16+

**GP GM1202**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY
YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN

## Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 72.14% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £25,196,275 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Camelot ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Camelot heb yn wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Camelot argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

## Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Camelot o ran y Gêm hon, y Gweithdrefnau hyn fydd drechaf.

16+

**GP GM1202**
Camelot UK Lotteries Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY

YOUR NUMBERS MAKE AMAZING HAPPEN